Cantref

www.cantref.co.uk
post@cantref.co.uk

Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol

Cymdeithas Tai Cantref
Llys Cantref
Lôn yr Eglwys
Castell Newydd Emlyn
Sir Gaerfyrddin
SA38 9AB
Tim y Gogledd: 0333 700 1023
Tim y De: 0333 700 1024

Os oes well gennych dderbyn y ddogfen hwn mewn fformat gwahanol, cysylltwch â Cantref.

cantref.indd 1 16/2/09 23:06:42

Cyflwyniad – Datblygu'r Strategaeth

Tua diwedd 2007, aeth Cantref ati i gysylltu â'r holl denantiaid gan holi pwy fyddai ganddynt ddiddordeb mewn bod yn aelod o weithgor a fyddai'n datblygu'r strategaeth. Gwelwyd nifer o denantiaid yn ateb ac yn ymaelodi â'r gweithgor.

Cynhaliwyd sawl cyfarfod gyda thenantiaid yn ystod misoedd y Gaeaf a'r Gwanwyn yn 2008, gan ystyried yr hyn y dylai'r strategaeth ei chynnwys, a chan ystyried yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn amdano, yr hyn y mae Cantref yn ei wneud ar hyn o bryd o ran cyfranogiad tenantiaid, ac aethpwyd ati i ddatblygu syniadau newydd. Yn ystod cyfres o weithdai, nodwyd y prif themâu ar gyfer y strategaeth, ac mae'r rhain wedi datblygu i fod yn amcanion.

Cynhaliodd Cantref ymgynghoriad gyda'r holl denantiaid ynghylch yr amcanion, trwy gynnal sioe deithiol ym mis Chwefror 2008. Cafodd yr adborth a roddwyd yn ystod y sioe deithiol ei gyfleu i'r gweithgor, a pharatowyd y strategaeth ddrafft. Cyhoeddwyd canlyniadau o'r sioe deithiol yng nghylchlythyr Ebrill 2008.

Ymgynghorwyd â'r Panel Deiliaid trwy gydol y broses gyfan a chynhwyswyd eu barn a'u safbwyntiau nhw yn y strategaeth ddrafft hefyd.

Anfonwyd copi o'r drafft at yr holl denantiaid er mwyn iddynt gael y cyfle i fynegi eu sylwadau amdano, ynghyd â holiadur

Cafodd 108 o holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd a nodwyd y pwyntiau a godwyd ynddynt yn y Cynllun Gweithredu

Beth yw cyfranogiad tenantiaid?

Er mwyn sicrhau bod Cantref yn darparu'r gwasanaeth gorau ag y bo modd i'r tenantiaid, hoffem eich annog i ymwneud â'r gwasanaeth tai gymaint ag y bo modd. Mae cyfranogiad tenantiaid yn ymwneud â rhoi'r cyfle i denantiaid fynegi eu barn am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu cartrefi a'u cymunedau lleol. Mae'n rhoi'r cyfle i denantiaid rannu safbwyntiau, gwybodaeth a syniadau gyda'r gymdeithas.

cantref.indd 2 16/2/09 23:07:37

Prif Nod

Nod Cantref yw gwella'n cartrefi a helpu i sicrhau bod ein cymunedau yn fannau gwell i fyw trwy:-

- Gydweithio mewn partneriaeth
- Gwrando ar ein gilydd a dysgu oddi wrth ein gilydd

Bydd y strategaeth yn:

- Datblygu ewyllys da a pharch ar y ddwy ochr
- Diogelu hawliau cyfreithiol tenantiaid
- Rhoi'r cyfle i denantiaid rannu gwybodaeth, syniadau a'r broses o wneud penderfyniadau er mwyn gwella'ch gwasanaeth tai a'ch cymuned
- Sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gymryd rhan
- Rhoi help ychwanegol a fydd yn galluogi pobl y mae ganddynt anghenion cymorth, i gymryd rhan

Yr hyn y byddwn yn ceisio'i gyflawni

- Annog tenantiaid i ddylanwadu ar welliannau i'r gwasanaeth lletya
- Darparu tenantiaid â mwy o wybodaeth mewn iaith syml
- Gwneud yn siŵr bod cyfle i bob tenant gymryd rhan
- Bod safbwyntiau tenantiaid yn cael eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau ym mhob rhan o wasanaethau lletya
- Dangos i denantiaid sut mae eu dylanwad wedi gwella gwasanaethau
- Gweithio gyda thenantiaid a landlordiaid er mwyn sicrhau gwerth am arian
- Tenantiaid a landlordiaid i gydweithio er mwyn sicrhau bod eu cymdogaethau a'u cymunedau yn fannau gwell i fyw

Strategaeth ar gyfer pwy yw hon?

Mae'r strategaeth hon ar eich cyfer chi os ydych:

- yn byw mewn un o'n cartrefi fel tenant
- yn byw mewn un o'n cartrefi lle y cynigir cymorth
- wedi prynu eich cartref fel lesddeiliad / perchennog ar y cyd
- yn byw mewn llety dros dro
- yn aelod o staff yn Cantref

Fel rhan o'r strategaeth, byddwn yn ymgysylltu ag aelodau'r gymuned ehangach a gyda phobl sy'n cael gwasanaeth gennym pan fo hynny'n briodol.

Beth allwch chi ei ddisgwyl gan y strategaeth hon?

Gallu cymryd rhan pryd bynnag, ble bynnag ac os ydych yn dymuno gwneud hynny
Cael cymorth er mwyn cymryd rhan
Cael yr holl wybodaeth y bydd ei hangen arnoch er mwyn gallu cymryd rhan
Cael cynnig amrediad o ffyrdd o gymryd rhan
Cael eich parchu a bod rhywun yn gwrando arnoch

cantref.indd 3 16/2/09 23:07:48

Sut y bydd modd i chi gymryd rhan

Rhannu gwybodaeth

Mae hyn yn golygu sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth y bydd ei hangen arnoch am y gwasanaeth tai, a sut i gymryd rhan mewn gweithgarwch cyfranogiad tenantiaid.
Mae enghreifftiau o'r ffyrdd y byddwn yn cyflawni hyn yn cynnwys: Cylchlythyrau, llawlyfrau, gwefannau a thaflenni gwybodaeth

Mae'ch safbwyntiau chi yn bwysig

Mae hyn yn rhoi cyfle i denantiaid fynegi eu safbwyntiau i Cantref ynghylch y gwasanaeth tai.
Mae enghreifftiau o'r ffyrdd y byddwn yn cyflawni hyn yn cynnwys: arolygon, grwpiau ffocws, fforymau trafod, canmoliaeth a chwynion

Newid pethau

Mae hyn yn golygu rhoi'r cyfle i denantiaid effeithio ar y ffordd a newid y ffordd y mae Cantref yn rhedeg y gwasanaeth tai trwy fynegi safbwyntiau a gwneud penderfyniadau.
Mae enghreifftiau o'r ffyrdd y byddwn yn cyflawni hyn yn cynnwys: Grwpiau Tenantiaid a Deiliaid, Cytundebau Ystad, Archwiliadau Tenantiaid, Prosiectau Cymunedol, Panel Deiliaid

Bydd y Panel Deiliaid yn symud o le i le yn ystod y flwyddyn, gan drefnu cyfarfodydd yn ystod y dydd / gyda'r hwyr. Caiff y Panel Deiliaid ei redeg gan y tenantiaid, ac mae croeso i'r holl denantiaid fynychu. Fe'i defnyddir at ddibenion ymgynghori bob amser.

Bod yn gyfrifol

Mae hyn yn golygu rhoi'r cyfle i denantiaid helpu i reoli'r ffordd y mae Cantref yn rhedeg y gwasanaeth tai.
Mae enghreifftiau o'r ffyrdd y byddwn yn cyflawni hyn yn cynnwys: Bwrdd Rheoli, penderfyniadau ynghylch sut y caiff cyllidebau eu gwario

Sut y byddwn yn gweithredu'r strategaeth:

- ✓ Meddu ar staff penodol er mwyn cynnig cyfranogiad tenantiaid
- ✓ Rhoi hyfforddiant i staff er mwyn cynnig cyfranogiad tenantiaid
- ✓ Prif-ffrydio cyfranogiad tenantiaid ar draws Cantref
- ✓ Cadw'r cofnodion diweddaraf am weithgareddau cyfranogiad tenantiaid
- ✓ Cysylltu nodau'r strategaeth hon gyda chynlluniau / strategaethau / polisïau eraill
- ✓ Rhoi cyhoeddusrwydd i'r strategaeth trwy gyfrwng cylchlythyrau, taflen wedi'i hysgrifennu mewn iaith eglur, gwefan a datganiadau i'r wasg

cantref.indd 4 16/2/09 23:08:10

Adnoddau e.e. arian, amser, arbenigedd ac ati.

Byddwn yn:

- ✓ meddu ar gyllideb ar wahân ar gyfer cyfranogiad tenantiaid. Bydd modd i'r tenantiaid weld sut y caiff yr arian hwn ei wario
- ✓ meddu ar arian i helpu grwpiau tenantiaid
- ✓ meddu ar arian ar gyfer hyfforddiant i denantiaid
- ✓ meddu ar arian ar gyfer cynadleddau i denantiaid
- ✓ meddu ar arian i dalu treuliau tenantiaid pan fyddant yn cymryd rhan
- ✓ meddu ar arian ar gyfer cymhellion a gwobrau
- ✓ rhoi help nad yw'n help ariannol e.e. offer TG, llogi ystafelloedd, cymorth gweinyddol
- ✓ rhoi gwybodaeth am y ffordd o wneud cais am arian allanol e.e. Grant y Loteri, Arian i Bawb ac ati
- ✓ helpu tenantiaid i ymwneud â'r broses o osod blaenoriaethau ar gyfer y gyllideb cyfranogiad tenantiaid
- ✓ helpu tenantiaid i ymwneud â'r gwaith o sicrhau gwerth am arian ar gyfer ein gwasanaethau

Hyfforddiant

Byddwn yn:

- ✓ Darganfod pa hyfforddiant y bydd ei angen ar denantiaid, staff ac aelodau
- ✓ Cynnal hyfforddiant ar y cyd rhwng tenantiaid a landlordiaid pan fo modd
- ✓ Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfleoedd hyfforddi ar gyfer tenantiaid, staff ac aelodau
- ✓ Cadw cofnod o'r hyfforddiant y mae tenantiaid, staff ac aelodau wedi'i gael, ynghyd â'r canlyniadau cadarnhaol yn dilyn yr hyfforddiant hwnnw

Rhoi adborth

Byddwn yn:

- ✓ Rhoi gwybod i'r tenantiaid sut y mae eu syniadau a'u safbwyntiau nhw wedi dylanwadu ar unrhyw newidiadau
- ✓ Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i denantiaid am yr hyn a fydd yn digwydd nesaf
- ✓ Cyhoeddi canlyniadau arolygon, holiaduron a gweithgareddau lle y byddwn yn gofyn am eich safbwyntiau.
- ✓ Rhoi adroddiad ar gynnydd blynyddol i'r tenantiaid ynghylch yr hyn a gyflawnwyd trwy gyfrwng y strategaeth

Sut bydd y strategaeth yn cael ei monitro?

Mae hon yn strategaeth 3 blynedd. Cyflwynir y Cynllun Gweithredu i'r Bwrdd bob blwyddyn, ac i'r Panel Deiliaid bob chwarter.

Cynllun Gweithredu Cyfranogiad Tenantiaid 2008-2010

Cyflwyniad
Mae Cymdeithas Tai Cantref wedi cydweithio gyda Thenantiaid, aelodau'r Bwrdd a Staff i ddatblygu Cynllun gweithredu cyfranogiad Tenantiaid.

Diben y Cynllun Gweithredu yw nodi'r hyn y **BYDDWN** yn ei gyflawni o ran cyfranogiad tenantiaid dros y 2 flynedd nesaf.

BYDDWN YN GWELLA GWASANAETHAU TAI TRWY WRANDO AR SAFBWYNTIAU TENANTIAID

1 Annog tenantiaid i fynychu digwyddiadau ymgynghori, cynadleddau, cyfarfodydd a seminarau trwy dalu eu costau
2 Ymgynghorir â'r tenantiaid ynghylch Safonau Ansawdd Tai Cymru, a byddant yn helpu i flaenoriaethu gwaith
3. Bydd tenantiaid yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o ddatblygu gwefan Cantref www.cantref.co.uk
4. Safbwyntiau tenantiaid ynghylch gwaith cynnal a chadw a gaiff ei gynllunio e.e. dewis lliw (o blith ystod o liwiau) unedau a wynebau gweithio, finyl
5. Camau gweithredu allweddol ynghylch gwelliannau a gynigir gan Gymdeithasau Tenantiaid i'w trosglwyddo i'r Panel Deiliaid yn ystod pob cyfarfod
6. Bydd y Panel Deiliaid yn cyfarfod o leiaf 6 gwaith y flwyddyn. Bydd y Panel Deiliaid yn cael ei redeg gan denantiaid. Byddwn yn defnyddio'r Panel ar gyfer unrhyw waith ymgynghori y bydd angen ei wneud
7. Bydd y Panel Deiliaid yn blaenoriaethu gwariant y gyllideb cyfranogiad tenantiaid a bydd Cantref yn rheoli'r gyllideb
8. Ar y Bwrdd Rheoli – mae'r Bwrdd yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn ac mae'n cynnwys gwirfoddolwyr. Trafodir y busnes a pholisïau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd. Gall tenantiaid ethol hyd at 5 tenant i fod yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli. Byddwn yn hyrwyddo hyn, gan esbonio'r rôl yn fanylach yn Clonc, ar y wefan ac yn y Llawlyfr i Denantiaid.
9. Annog tenantiaid i fod yn denantiaid sy'n archwilwyr. Gall tenantiaid sy'n archwilwyr arolygu adrannau o fewn y sefydliad, a bydd camau'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau.
10. Cynnal archwiliad ynghylch y gwaith cynnal a chadw
11. Sefydlu grwpiau ffocws sy'n cynnwys tenantiaid er mwyn pennu safonau gwasanaeth ac ystyried materion penodol
12. Tenantiaid i gymryd rhan mewn cyfarfodydd contractwyr
13. Tenantiaid a staff i ystyried enghreifftiau o arfer da yn y sector tai

cantref.indd 6 16/2/09 23:08:25

BYDDWN YN DARPARU RHAGOR O WYBODAETH I DENANTIAID, AC MEWN IAITH EGLUR

14. Cwblhau gweithgarwch llunio proffil o denantiaid, fel bod Cantref yn gallu darparu gwybodaeth mewn ffurfiau amrywiol mewn ffordd mae tenantiaid yn dymuno ei gael
15. Pan fo modd, cysylltu â thenantiaid trwy gyfrwng negeseuon e-bost a negeseuon testun (yn ôl yr angen)
16. Rhoi Llawlyfr i bob tenant sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf
17. Paratoi 4 rhifyn o gylchlythyr 'Clonc' bob blwyddyn, gyda chymorth y tenantiaid yn ysgrifennu erthyglau, a chan gynnwys deunydd sy'n amlygu polisïau a gweithdrefnau
18. Gwella'n gwefan www.cantref.co.uk er mwyn galluogi tenantiaid i wneud cais am gartref, talu rhent, adrodd gwaith trwsio, gwneud sylwadau, rhoi canmoliaeth a gwneud cwynion.

BYDDWN YN SICRHAU BOD MODD I DENANTIAID GYMRYD RHAN

19. Trwy gyhoeddi dyddiadau cyfarfodydd / digwyddiadau ymlaen llaw mewn calendr yn Clonc ac ar ein gwefan, gan gynnwys cyfarfodydd Panel Deiliaid, Cymdeithasau Tenantiaid
20. Darparu gofal plant a chostau teithio neu drefnu cludiant ar gyfer tenantiaid sy'n dymuno cyfranogi
21. Cwblhau gweithgarwch llunio proffil fel bod gan Cantref wybodaeth ddiweddaraf am anghenion tenantiaid.
22. Annog tenantiaid i fynychu Panel Deiliaid drwy hysbysu dyddiadau mewn Clonc
23. Bydd y Panel Deiliaid yn cynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd / gyda'r hwyr bob yn ail, gan ddefnyddio lleoliadau amrywiol
24. Annog tenantiaid i fynychu'r Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Bydd y cyfarfod hwn yn rhan o ddiwrnod hwyl cymunedol.
25. Annog a chynorthwyo pobl sy'n rhannu diddordeb arbennig i sefydlu grwpiau os ydynt yn dymuno gwneud hynny
26. Adnabod grwpiau anodd eu cyrraedd nad ydynt yn cael eu cynrychioli a chyflwyno cyfrwng iddynt gyfranogi.
27. Cynnal 10 cymhorthfa / ymweliad ardal yn ystod y flwyddyn
28. Caiff effeithiolrwydd yr holl weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid ei fesur a'i werthuso
29. Rhoi'r cyfle i denantiaid fanteisio ar ein cyfleusterau e.e. offer swyddfa, peiriannau llungopïo, cyfrifiaduron, ystafell gyfarfod

BYDDWN YN YSTYRIED SAFBWYNTIAU TENANTIAID WRTH WNEUD PENDERFYNIADAU YN Y SEFYDLIAD

30. Bydd Cyfranogiad Tenantiaid yn rhan o'r rhaglen sefydlu ar gyfer yr holl staff
31. Bydd cynrychiolwyr staff o bob adran yn Hyrwyddwyr Tenantiaid. Bydd hyn yn ein helpu i brif-ffrydio cyfranogiad tenantiaid ar draws y sefydliad
32. Bydd pob aelod o staff yn mynychu o leiaf 1 digwyddiad ar gyfer tenantiaid
33. Cynhelir dadansoddiad hyfforddi ar gyfer staff a hyfforddiant pwrpasol yn cael ei drefnu.
34. Caiff adborth o arolygon, digwyddiadau, y Panel Deiliaid a Chymdeithasau Tenantiaid ei gyfleu a'i drafod wrth wneud penderfyniadau, blaenoriaethu gwaith a datblygu'r Cynllun Busnes

cantref.indd 7 16/2/09 23:08:29

BYDDWN YN DANGOS I'R TENANTIAID SUT Y MAE EU DYLANWAD NHW WEDI GWELLA GWASANAETHAU

35. Gofyn i'r tenantiaid am yr hyn yr hoffent weld Cantref yn ymgynghori â nhw yn ei gylch, a chadw cofnod o hyn
36. Cynnal 1 arolwg blynyddol gan gynnwys yr holl denantiaid
37. Caiff cynlluniau gweithredu eu paratoi ar gyfer pob arolwg a gynhelir a rhoddir adborth i'r tenantiaid trwy gyfrwng cylchlythyr 'Clonc'

BYDDWN YN GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH ER MWYN SICRHAU GWERTH AM ARIAN

38. Cwrdd ddwywaith y flwyddyn gyda landlordiaid eraill i edrych ar weithio ar y cyd
39. Cydweithio yn ôl yr angen er mwyn cymryd camau ar y cyd h.y. sefydlu Cymdeithasau Tenantiaid mewn ystadau cymysg lle y ceir 2 landlord
40. Cynnig cyfleoedd hyfforddiant i denantiaid yn ôl yr angen
41. Nodi cyfleoedd i gynnal digwyddiadau ar y cyd
42. Cydweithio'n agos er mwyn cynnig cyfleoedd i denantiaid a staff ddysgu oddi wrth ei gilydd
43. Ystyried sefydlu peilot ynghylch cymhellion er mwyn annog cyfranogi megis Bancio Amser
44. Cynnal y perthnasoedd cadarnhaol presennol gydag Awdurdodau Lleol a budd-ddeiliaid / partneriaid allweddol
45. Sicrhau bod yr holl gontractwyr a'r budd-ddeiliaid / partneriaid allweddol yn cael eu hysbysu o'r hyn y mae Cantref yn ei wneud bob chwarter trwy anfon rhifyn o Clonc atynt

BYDDWN YN HELPU TENANTIAID TRWY SICRHAU BOD EU CYMDOGAETHAU A'U CYMUNEDAU YN FANNAU GWELL I FYW

46. Cynnal ymweliad blynyddol â phob eiddo
47. Trwy sefydlu Cymdeithas Denantiaid leol os nad oes un yn bodoli, rhoddir £100 i bob Cymdeithas Denantiaid bob blwyddyn tuag at gostau teithio
48. Ystyried y posibilrwydd o gyflwyno 'Cronfa Gymunedol' ar gyfer gweithgareddau / digwyddiadau cymunedol
49. Ymweld ag eiddo mewn ardaloedd ynysig yn amlach
50. Datblygu Rhaglenni Arolygu Ystadau a'u cyfleu i denantiaid
51. Anogir tenantiaid i gynnal ymweliadau ystâd unwaith y mis gyda swyddogion tîm
52. Trwy ymgynghori ynghylch amgylchedd allanol safonol Safon Ansawdd Tai Cymru
53. Gweithio gyda sefydliadau / grwpiau cymunedol
54. Sefydlu grŵp ffocws ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
55. Ystyried y posibilrwydd o ddarparu safleoedd chwarae mewn datblygiadau newydd
56. Cynnal Cystadleuaeth Garddio
57. Annog ailgylchu a bwyta'n iach

cantref.indd 8 16/2/09 23:08:33